PENNOD 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

Nod yr ymgynghoriad

1.1. Mae'r papur ymgynghori yn nodi cynigion y Llywodraeth i wella'r fframwaith sefydliadol i sicrhau bod system reoleiddio niwclear gadarn, effeithiol ac effeithlon ar waith yn y DU[1] yng nghyd-destun amgylchedd niwclear byd-eang sy'n newid yn gyflym. Nod y ddogfen ymgynghori hon yw:

- hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd o'r cynigion i ddiwygio ac ailstrwythuro rhai o'r rheoleiddwyr niwclear presennol;
- sicrhau rhanddeiliaid a'r cyhoedd na fydd y cynigion yn newid y gofynion a'r safonau y mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswydd gydymffurfio â hwy;
- ceisio ymatebion i gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori hon (am restr lawn gweler tudalen 6-7) ac unrhyw sylwadau eraill y mae ymgyngoreion am eu gwneud ar y cynigion.

Pam mae angen newid?

1.2. Mae'r diwydiant niwclear, yn y wlad hon ac yn rhyngwladol, yn newid yn gyflym ac mae hyn yn creu nifer o heriau i reoleiddwyr niwclear y DU[2]. Ymhlith yr heriau hyn mae:

- gofynion sy'n newid o ran adweithyddion ynni niwclear sy'n heneiddio a nod y cwmnïau cynhyrchu o sicrhau eu bod yn parhau i gynhyrchu trydan yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn ddarbodus er mwyn ateb y galw presennol a disgwyliedig am ynni;
- y gwaith parhaus o ddadgomisiynu a rheoli safleoedd niwclear etifeddol gan gynnwys cyfleusterau risg uchel;
- y gwaith o asesu gorsafoedd ynni niwclear newydd posibl a'u trwyddedu, eu hadeiladu, eu gweithredu a'u dadgomisiynu wedyn;
- newidiadau strwythurol yn y diwydiant sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau hyn, gan gynnwys cynyddu cyfranogiad y sector preifat, cystadleuaeth, defnydd helaethach o gontractwyr a chwmnïau newydd yn dod i mewn i farchnad y DU, gan gynnwys cwmnïau o wledydd tramor;
- y farchnad sgiliau niwclear fyd-eang sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol, sy'n effeithio ar allu'r rheoleiddwyr niwclear i recriwtio'r staff profiadol â chymwysterau uchel sydd eu hangen, rhywbeth sy'n bwysig o gofio bod cyfran sylweddol o'r arolygwyr presennol yn nesáu at oedran ymddeol;
- newidiadau yn nisgwyliadau a buddiannau cymdeithas gan gynnwys yn atebolrwydd, tryloywder ac effeithlonrwydd cyrff yn y sector cyhoeddus.

---

[1] Mae paragraff 1.20 yn nodi sut y mae'r gwaith o reoleiddio gweithgareddau niwclear a chludo deunyddiau ymbelydrol yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
[2] Gweler troednodyn [1]

1.3. Mae gan reoleiddwyr niwclear y DU enw da am ragoriaeth dechnegol ac effeithiolrwydd. Mae pob un o'r rheoleiddwyr yr effeithid arnynt gan y diwygiadau[3] wedi gweithredu rhaglenni gwella busnes neu mae ganddynt raglenni gwella busnes ar waith i wella effeithlonrwydd ymhellach a sicrhau system reoleiddio o'r radd flaenaf mewn amgylchedd cenedlaethol a rhyngwladol sy'n newid. At hynny trosglwyddodd y Llywodraeth weithrediadau'r Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil a Swyddfa Diogelu'r DU i Gyfarwyddiaeth Niwclear yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2007 i wella cysondeb gweithgarwch rheoleiddio a lleihau nifer y rhyngwynebau rheoleiddio i ddeiliaid dyletswydd.

1.4. Fodd bynnag, erbyn hyn mae posibilrwydd gwirioneddol y caiff gorsafoedd ynni niwclear newydd eu hadeiladu yn y DU, a allai ddod â manteision nid yn unig o ran diogelwch ynni ac allyriadau carbon, ond hefyd o ran swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu yn y DU. Oherwydd hyn, a'r heriau sylweddol eraill (a ddisgrifiwyd uchod), mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn amserol ac yn briodol deddfu a diwygio'r dull sefydliadol y mae'r DU yn ei ddefnyddio i reoleiddio ei chyfleusterau niwclear presennol a chyfleusterau niwclear posibl yn y dyfodol. Byddai hyn yn sicrhau'r gwelliannau busnes y cyfeiriwyd atynt uchod a newidiadau eraill yn gyflymach ac yn fwy effeithiol.

Crynodeb o'r cynigion

1.5. Mae'r newidiadau yn effeithio'n bennaf ar Gyfarwyddiaeth Niwclear yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a dwy ran o'r Adran Drafnidiaeth: sef y Tîm Cludo Deunyddiau Ymbelydrol (RMTT) a'r Gyfarwyddiaeth Diogelwch Cludiant ac Argyfyngau (TRANSEC). Mae'r rheoleiddwyr yn uchel eu parch am eu lefel uchel o gymhwysedd technegol a phroffesiynoldeb[4]. Felly mae'r diwygiadau arfaethedig yn ceisio adeiladu ar gryfderau presennol y gyfundrefn reoleiddio, tra'n creu sefydliad modern a all ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig ag amgylchedd niwclear sy'n newid; gan greu rheoleiddiwr o'r radd flaenaf a gydnabyddir yn eang am ei ragoriaeth yn yr amgylchedd newydd hwn.

1.6. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu deddfu i greu rheoleiddiwr cryfach â ffocws mwy penodol sy'n fwy annibynnol a hyblyg i fynd i'r afael â'r amgylchedd diwydiannol a chymdeithasol sy'n newid.

1.7. Byddai'r cynigion yn cyflawni dau newid allweddol, sef:

---

[3] Gweler paragraff 1.8 isod.

[4] Er enghraifft nododd adolygiad yr IAEA yn 2006 o gyfundrefn reoleiddio'r DU fod y Gyfarwyddiaeth Niwclear yn "a long-established and well-regarded nuclear regulatory agency…", tudalen 11 http://www.hse.gov.uk/nuclear/regulatoryreview/irrsreducedscope.pdf. Hefyd, cafodd Arfarniad yr IAEA o Ddiogelwch Gweithgarwch Cludo Deunyddiau Ymbelydrol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn 2002 fod " the regulatory framework in the UK for the transport of radioactive material is well developed". www-pub.iaea.org/MTCD/publications/PDF/Pub1143_scr.pdf

- **creu rheoleiddiwr annibynnol sector-benodol newydd, â bwrdd sy'n cynnwys aelodau anweithredol yn bennaf, sy'n atebol i: (i) Gweinidogion o ran ei swyddogaethau rheoleiddio; (ii) Gweinidogion a HSE o ran strategaethau a gwaith cynllunio busnes;**

- **trosglwyddo'r cyfrifoldebau statudol am gyflawni swyddogaethau yn ymwneud â thrafnidiaeth, diogelwch a mesurau diogelu[5] (a ddisgrifir isod) oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i'r rheoleiddiwr newydd.**

1.8. Byddai'r rheoleiddiwr newydd yn gorfforaeth statudol (y cyfeirir ato fel y Gorfforaeth Statudol Niwclear neu'r NSC[6]) a byddai'n gyfrifol am y swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Gyfarwyddiaeth Niwclear a chan RMTT, yn ogystal â'r swyddogaethau hynny a gyflawnir gan TRANSEC sy'n ymwneud â chludo deunyddiau ymbelydrol, er enghraifft:

- rheoleiddio diogelwch safleoedd niwclear (ar eithrio diogelwch mewn safleoedd amddiffyn niwclear, a fyddai'n aros gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn);
- rheoleiddio gweithgarwch cludo deunyddiau ymbelydrol (gan gynnwys deunyddiau niwclear) ar y ffordd neu ar y trên; yn ogystal â
- swyddogaethau yn ymwneud â mesurau diogelu.

1.9. Am y tro cyntaf bydd swydd y Prif Arolygydd yn un y darperir yn ffurfiol ar ei chyfer mewn deddfwriaeth, gan sicrhau bod gan y corff newydd arweinydd rheoleiddio awdurdodol.

1.10. Byddai gan yr NSC fwy o ryddid sefydliadol ac ariannol nag sydd ar gael i'r rheoleiddwyr niwclear presennol, ond byddai'n parhau i fod yn atebol i Weinidogion a HSE (am fanylion y gydberthynas gweler Pennod 3).

1.11. Byddai gan yr NSC ei bwrdd ei hun, a fyddai'n cynnwys aelodau anweithredol yn bennaf, a gâi ei sefydlu'r i roi'r arweiniad cryf, dynamig a strategol sydd ei angen i sicrhau rheoleiddiwr blaengar o'r radd flaenaf. Byddai'r bwrdd yn pennu cynlluniau busnes a strategaethau'r NSC (yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion a HSE). Ni fyddai bwrdd yr NSC yn gallu gwneud penderfyniadau rheoliadol na gweithredol penodol nac unigol, a gâi eu dirprwyo yn ymarferol i'r Prif Arolygydd, a all yn ei dro ddirprwyo rhai o'r swyddogaethau gweithredol hyn i aelodau priodol o staff yr NSC.

---

[5] Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am y swyddogaethau yn ymwneud â mesurau diogelu a diogelwch yn y darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, fodd bynnag cyflawnir y swyddogaethau gan HSE (drwy'r OCNS ac UKSO) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gytundeb yn unol ag adran 13 o HSWA.

[6] Ni phenderfynwyd ar enw'r NSC eto, felly er hwylustod yn y ddogfen hon cyfeirir ati fel y Gorfforaeth Statudol Niwclear neu'r NSC.

1.12. Bwriedir i'r diwygiadau hyn wneud gweithgareddau rheoleiddio yn fwy tryloyw, atebol a chyson, gan geisio cynyddu hyder pob rhanddeiliad, sy'n cynnwys deiliaid dyletswydd a'r rhai â buddiannau ehangach. Disgwylid i'r diwygiadau gynnig manteision pendant ac uniongyrchol i ddiwydiant a gweithwyr yn ogystal â chymdeithas yn gyffredinol, a fyddai'n cael budd o system reoleiddio peryglon niwclear effeithlon a fyddai'n dal i fod yn gadarn ac yn effeithiol. Rhoddir esboniad manylach o fanteision y cynigion ym mharagraffau 3.19-3.31.

1.13. Ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn amharu ar annibyniaeth y rheoleiddiwr a fydd yn dal yn rhydd o ddylanwad gwleidyddol neu bwysau diwydiant. Bydd bwrdd y corff newydd yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau annibyniaeth yr NSC, er enghraifft drwy fabwysiadu gweithdrefnau gweithredu a threfniadau cydgysylltu allanol (ee. â diwydiant) priodol ar bob lefel drwy'r sefydliad cyfan. Bydd y corff newydd yn fwy atebol (drwy gyflwyno adroddiadau i HSE ac i weinidogion) ac yn fwy tryloyw (drwy greu corfforaeth statudol at y diben hwn). Ni fydd y cynigion yn newid y gofynion a'r safonau y mae'n rhaid i ddeiliaid dyletswydd gydymffurfio â hwy a byddai'r rheoleiddiwr newydd yn aros yn y sector cyhoeddus a byddai'n atebol i Weinidogion a HSE.

1.14. Ceir Asesiad Effaith rhannol ar gyfer y darpariaethau penodol yn y ddogfen ymgynghori hon yn Atodiad D. Byddai'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau am yr Asesiad Effaith ar dudalen 7.

1.15. Byddai Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn parhau i reoleiddio'r agweddau amgylcheddol ar weithgareddau niwclear (gweler paragraff 3.17 am esboniad).

Ar bwy y bydd y cynigion hyn yn effeithio?

1.16. Efallai y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i amrywiaeth eang o grwpiau, gan gynnwys y deiliaid dyletswydd sy'n cael eu rheoleiddio gan y Gyfarwyddiaeth Niwclear ar hyn o bryd a'r rhannau o'r Adran Drafnidiaeth yr effeithir arnynt, cyflogeion y rheoleiddwyr yr effeithir arnynt gan y broses ailstrwythuro, partneriaid rheoleiddio megis asiantaethau'r amgylchedd ac unrhyw unigolyn neu grŵp arall sydd â diddordeb yn nhrefniadau llywodraethu a threfniadau strwythurol y rheoleiddwyr niwclear.

Sut y gweithredir ar y cynigion hyn?

1.17. Rydym yn bwriadu cyflawni'r diwygiadau drwy Orchymyn Diwygio Deddfwriaethol o dan adran 2 (*Pŵer i hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio)* o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Mae Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yn fath o is-ddeddfwriaeth y creffir arni gan y Pwyllgor Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Arglwyddi (gweler y manylion a nodir ym Mhennod 4 am esboniad o'r pwerau o dan y Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol i wneud Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol. Esbonnir y broses Seneddol ar

gyfer Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol ym Mhennod 5 ac Atodiad B.

Yr amserlen ddisgwyliedig

1.18.

• Mae'r ymgynghoriad 12 wythnos yn dechrau	30 Mehefin 2009
• Daw'r ymgynghoriad i ben	22 Medi 2009
• Gosod y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol gerbron y Senedd ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad	Diwedd 2009
• Gwneud y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol	Gwanwyn 2010
• Y gorfforaeth statudol niwclear wedi'i chreu	Hydref 2010

Datganoli

1.19. Mae'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yn gosod rhai cyfyngiadau o ran Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol a'r cytundebau datganoli:

- **Cymru** – Mae angen i Weinidogion Cymru gytuno ar unrhyw ddarpariaeth mewn Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol sy'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru, sy'n addasu neu'n dileu un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, neu sy'n ailddatgan darpariaeth sy'n rhoi swyddogaeth i Weinidogion Cymru. Mae angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno ar unrhyw ddarpariaeth mewn Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.
- **Yr Alban** – Ni all Gweinidog wneud Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol o dan Ran 1 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban. Nid yw hyn yn effeithio ar y pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol, atodol, cysylltiedig na throsiannol.
- **Gogledd Iwerddon** – Ni all Gweinidog wneud Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol o dan Ran 1 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon, oni fydd yn gwneud hynny er mwyn gwneud darpariaethau canlyniadol, atodol, cysylltiedig neu drosiannol.

1.20. Mae'r cynigion ymgynghori yn ymdrin â materion sydd wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU mewn perthynas â Chymru a'r Alban (h.y. iechyd a diogelwch gan gynnwys rheoleiddio diogelwch niwclear, rheoleiddio diogelwch a chludiant a mesurau diogelu) ac felly maent yn cwmpasu Cymru a'r Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, awdurdodau Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am reoleiddio iechyd a diogelwch gan gynnwys diogelwch niwclear, a diogelwch deunyddiau ymbelydrol sy'n cael eu cludo, er nad oes unrhyw osodiadau niwclear yng Ngogledd Iwerddon. Felly byddai swyddogaethau rheoleiddio'r rheoleiddiwr newydd arfaethedig yn cwmpasu Prydain Fawr yn unig, ac eithrio swyddogaeth rheoleiddio diogelwch niwclear a mesurau diogelu a fyddai'n cwmpasu

Gogledd Iwerddon hefyd. Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn sylweddoli y bydd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig ddiddordeb yn y cynigion ac mewn datblygu cydberthnasau priodol â'r rheoleiddiwr newydd arfaethedig, ar ôl iddo gael ei sefydlu.

Ymgynghori

1.21. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â darpariaethau adran 13 o'r Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol (sy'n ei gwneud yn ofynnol i adrannau ymgynghori â phartïon â diddordeb ynghylch cynigion Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol) a Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghoriadau Ysgrifenedig (y nodir eu meini prawf yn Atodiad Ch). Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys y wybodaeth a argymhellir gan y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio (BRE) ar gyfer cynigion Gorchmynion Diwygio Deddfwriaethol.

1.22. Os oes gennych sylwadau neu gwynion ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech eu hanfon at:

Marjorie Addo
Consultation Co-ordinator
Department of Energy and Climate Change
Area 7C
Nobel House
17 Smith Square
London
SW1P 3JR

E-bost: **consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk**

1.23. Ni chynhwyswyd drafft y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol, ond cynhwyswyd rhestr o'r swyddogaethau deddfwriaethol y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt yn Atodiad E.

Ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori

1.24. Gwahoddir pob parti â diddordeb i gyflwyno sylwadau, nid dim ond y rhai yr anfonwyd y ddogfen hon atynt. Mae croeso i chi roi'r ddogfen ymgynghori hon i unrhyw barti arall sydd â diddordeb. Ymatebwch gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys yr holl gwestiynau yr hoffem gael eich barn arnynt yn ogystal â'r cwestiynau penodol hynny sydd wedi'u hamlygu yng nghorff y papur ymgynghori.

1.25. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 22 Medi 2009. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lythyr, e-bost neu drwy anfon y ffurflen yn Atodiad A at:

Thomas Wood
The Department of Energy and Climate Change
3 Whitehall Place

London
SW1A 2HD
E-bost: **ndrestructuring@decc.gsi.gov.uk**

1.26. Ceir rhagor o gopïau o'r ddogfen ymgynghori hon o:

BIS Publications Orderline, ADMAIL 528, London SW1W 8YT
Ffôn: 0845-015 0010
Ffacs: 0845-015 0020
Minicom: 0845-015 0030
www.berr.gov.uk/publications/reports/

1.27. Gellir llwytho fersiwn electronig i lawr o wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn:

http://decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/hse_restruct/hse_restruct.aspx

1.28. Cynhelir yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos yn ystod yr haf. Er bod hyn yn cwmpasu cyfnod y gwyliau, ystyriwyd ei bod yn bwysig bwrw ymlaen â'r cynigion yn brydlon i gwrdd ag amserlenni seneddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Llywodraeth am drafod y cynigion â chynifer o bartïon â diddordeb â phosibl. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod (paragraff 1.25) i gysylltu â'r Tîm Ymgynghori a thrafod y posibilrwydd o gyfarfod.

Camau Nesaf

1.29. Cyhoeddir canlyniadau'r ymgynghoriad hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Os yw'n briodol byddwn yn diwygio'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon i ystyried y safbwyntiau hynny. Nid ydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ffurfiol arall ar y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol diwygiedig er efallai y byddwn yn trafod agweddau arno â rhanddeiliaid cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Datgelu

1.30. Fel arfer datgelir manylion sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, a enwir ymatebwyr. Er bod y Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yn darparu ar gyfer peidio â datgelu sylwadau, bydd y Gweinidog yn cynnwys enwau pob ymatebydd yn y rhestr a gyflwynir i'r Senedd ochr yn ochr â'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol drafft. At hynny mae'n ofynnol i'r Gweinidog ddatgelu unrhyw sylwadau y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgorau Craffu Seneddol perthnasol neu a wneir iddynt. Mae hwn yn fesur diogelu rhag ymdrechion i ddylanwadu'n amhriodol ar y Gweinidog. Rydym yn

rhagweld, yn nhrefn arferol pethau, mai anaml y defnyddir y ddarpariaeth hon a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol.

1.31. Dylech nodi'r canlynol:

- Os gofynnwch i ni beidio â datgelu eich sylwadau, ni fydd y Gweinidog yn gallu datgelu cynnwys eich sylwadau heb eich caniatâd penodol ac, os bydd y sylwadau yn ymwneud â thrydydd parti, ei ganiatâd ef hefyd. Fel arall, efallai y bydd y Gweinidog yn datgelu cynnwys eich sylwadau ond yn y fath fodd fel na ddatgelir eich enw.

- Ym mhob achos lle mae eich sylwadau yn ymwneud â gwybodaeth am drydydd parti, nid oes rhaid i'r Gweinidog eu rhoi i'r Senedd os yw o'r farn y gallai eu datgelu amharu ar fuddiannau'r trydydd parti hwnnw ac na all gael caniatâd y trydydd parti.

1.32. Nodwch unrhyw wybodaeth nad ydych chi nac unrhyw unigolyn arall dan sylw am iddi gael ei datgelu. Dylech nodi bod llawer o negeseuon ffacsimili ac e-bost, fel mater o drefn, yn cynnwys datganiad bod y cynnwys ar gyfer llygaid y derbynnydd bwriadedig yn unig. Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn ni ddehonglir y cyfryw ddatganiadau atodedig fel ceisiadau i beidio â chynnwys gwybodaeth yn yr adolygiad yn dilyn yr ymgynghoriad oni chyflwynir cais penodol ychwanegol am gyfrinachedd gyda hwy, megis ticio'r blwch a ddarparwyd at y diben hwnnw ar y ffurflen ymateb yn Atodiad B.

Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth

1.33. Mae'n bosibl y caiff ceisiadau am wybodaeth a geir mewn ymatebion ymgynghori eu gwneud yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os nad ydych am i'ch ymateb gael ei ddatgelu mewn ymateb i'r cyfryw geisiadau am wybodaeth, dylech nodi'r wybodaeth rydych am iddi gael ei hatal ac esbonio pam mae angen ei chadw'n gyfrinachol. Dim ond os yw'n briodol yn yr holl amgylchiadau y caniateir eich cais. Nid ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG ynddo'i hun yn gyfrwymol ar yr Adran.

1.34. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu gwybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn ond ni allwn sicrhau cyfrinachedd ar bob achlysur.